**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (126)**
**Dydd Mercher, 16 Mawrth 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1**

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Y Cwestiynau

**.......................................**

**Eitem 2**

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Y Cwestiynau

**.......................................**

**Cwestiwn Brys**

**Glyn Davies (Mid and West Wales): Will the Minister for Economic Development and Transport make a statement about the loss of another 70 jobs in Newtown where the Elliott Group is reducing its workforce to 20?**

**Eitem 3**

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27(iv) Reoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005 - TYNNWYD YN OL**

**NDM 2368 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005.

**NDM 2369 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad wedi'i osod gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Dogfennau Atodol
Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael

**.....................................**

**Eitem 4**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cyfrifon ac Archwilio Ymddiriedolaethau Elusennol ac Anelusennol y GIG) 2005 o dan Reol Sefydlog 26**
**NDM 2370 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cyfrifon ac Archwilio Ymddiriedolaethau Elusennol ac Anelusennol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005.

*Rhaid cael cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y gellir cymhwyso'r Gorchymyn yng Nghymru. Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno a'i anfon at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005.*

Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cyfrifon ac Archwilio Ymddiriedolaethau Elusennol ac Anelusennol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2005 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael
Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cyfrifon ac Archwilio Ymddiriedolaethau Elusennol ac Anelusennol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2005 - Memorandwm Esboniadol - Dim fersiwn Gymraeg ar gael

**.....................................**

**Eitem 5**
**Dadl ar geisiadau ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol**

**NDM 2366 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 33.9 a 33.11:

1. Yn cymeradwyo cynigion y Cabinet ar gyfer Mesurau yn y sesiwn Seneddol nesaf fel y nodir yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a gafodd ei chylchredeg i Aelodau'r Cynulliad ar 9 Mawrth 2005;

2. Yn gofyn i'r Cabinet godi'r cynigion hyn gyda Llywodraeth y DU a phwyso am ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n adlewyrchu anghenion arbennig Cymru ac yn parchu swyddogaeth y Cynulliad.

Dogfennau Atodiadol
Cynigion y Cabinet ar gyfer Mesurau - Dim fersiwn Gymraeg ar gael

*Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:*
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**Gwelliant 1. David Melding (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, rhoi 'nodi' yn lle 'cymeradwyo'.

**Gwelliant 2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gofyn i Gabinet y Cynulliad drafod gyda Llywodraeth y DU a ellir cael Deddf Llywodraeth Cymru er mwyn ailgyfansoddi'r Cynulliad Cenedlaethol fel Senedd Cymru a chanddi bwerau deddfu sylfaenol a fydd yn ei galluogi i gyflwyno mesurau megis gofal personol am ddim, gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gwneud Dydd Gwyl Dewi yn ddiwrnod o wyliau cyhoeddus.

**Gwelliant 3. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Mesurau canlynol wedi'u cynnwys yng nghynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan:

a) Mesur Diwylliant (Cymru) – i sefydlu Oriel Genedlaethol ac Archif Genedlaethol yng Nghymru.
b) Mesur GIG (Cymru) – i gyflwyno cynllun 'pasbort y claf' er mwyn lleihau rhestrau aros.
c) Mesur Addysg (Cymru) - i annog datblygu ysgolion arbenigol yng Nghymru, gan ddechrau ag ysgolion Cymraeg ag ysgolion ieithoedd tramor modern.
d) Mesur Tai (Cymru) – i ganiatáu i grwpiau sefydlu cronfeydd benthyca a sefydlu cymdeithasau cymdogaeth, gyda'r bwriad o ddarparu tai mwy fforddiadwy.
e) Mesur Gwyl y Banc (Cymru) – i sefydlu Dydd Gwyl Dewi fel diwrnod swyddogol o wyliau yng Nghymru
f) Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) – i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a symud y pwyslais oddi wrth gyfraith trosedd at therapi, mewn perthynas â materion difrifol yn ymwneud ag iechyd meddwl.
g) Mesur Darpariaethau Cyhoeddus (Cymru) – i ganiatáu i'r amryfal faterion y bydd y Cynulliad yn eu hargymell ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol gael eu cyfuno mewn un Mesur

**Gwelliant 4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y methiant ym Mesur Llywodraeth Cymru arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad i weithredu argymhellion Comisiwn Richard yn llawn.

*Mae adroddiad Comisiwn Richard i'w weld yn: http://www.comisiwnrichard.gov.uk/content/finalreport/report-w.pdf*

**Gwelliant 5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod y setliad datganoli presennol yn rhwystr i ddatblygu polisïau yn integredig.

**Gwelliant 6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn disgwyl na fydd y rhan fwyaf o gynigion Llywodraeth y Cynulliad yn llwyddo.

**Gwelliant 7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fesur Cloddio Glo Brig a Mwynau, wedi'i seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy a chyfiawnder amgylcheddol, a fydd yn galluogi'r Cynulliad cenedlaethol i bennu bod yn rhaid gadael 500 metr o le rhwng safleoedd arfaethedig ac aneddiadau.

**Gwelliant 8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fesur Datganoli (Cyllid) er mwyn rhoi sylfaen statudol a theg i'r dull o ddyrannu arian y llywodraeth i wahanol rannau o Loegr a Chymru, gan ddisodli Fformiwla Barnett.

**Gwelliant 9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fesur yr Iaith Gymraeg er mwyn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg yn y sector preifat yn ogystal ag yn y sector cyhoeddus.

**Gwelliant 10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fesur Dydd Gwyl Dewi i sefydlu Dydd Gwyl Dewi fel gwyl gyhoeddus yng Nghymru.

**Gwelliant 11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fesur Tai a Chyllid Llywodraeth Leol i alluogi'r Cynulliad i ddiddymu'r dreth gyngor a'i

disodli â threth incwm leol; rhoi pwerau i'r awdurdodau lleol i atal yr hawl i brynu tai cyngor mewn ardaloedd penodol; a sefydlu Uned Ymddiriedolaeth Tir gyda phwer ac adnoddau i helpu i sefydlu ymddiriedolaethau tir cymunedol.

**Gwelliant 12. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fesur Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd (Cymru) i ddatganoli i'r Cynulliad yr holl benderfyniadau cynllunio sy'n ymwneud â phrosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y rhai dros 50 megawat; a datganoli'r awdurdod dros Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru.

**Gwelliant 13. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am Fesur Treth Dirlenwi (Cymru) i drosglwyddo'r holl gronfeydd a godir o'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru i gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol.

**.......................................**

***Cynnig i drafod y 2 eitem canlynol gyda phleidleisiau ar wahan***

**Eitem 6**

**Cynnig i gymeradwyo Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru o dan Reol Sefydlog 29**

**NDM 2372 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005.

**NDM 2373 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn cymeradwyo bod Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru yn cael ei wneud yn unol â'r Fframwaith drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005.

**Dogfennau Atodol**
Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru

......................................

**Eitem 7**

**Cynnig i gymeradwyo The Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 dan Reol Sefydlog 26 - TYNNWYD YN OL**

**NDM 2371 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005.

*Rhaid cael cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y gellir cymhwyso'r Gorchymyn yng Nghymru. Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno a'i anfon at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005.*

Dogfennau Atodol
Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael
Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 - Memorandwm Esboniadol - Dim fersiwn Gymraeg ar gael

......................................

**Eitem 8**

**Cynnig I gymeradwyo o dan reol Sefydlog 24.25**

**The Fire and Rescue Services (National Framework) (Wales) Order 2005**

**NDM 2374 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1.Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 9 Mawrth 2005, ar y gorchymyn drafft Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:

a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2005
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 9 Mawrth 2005

Dogfennau Atodiadol
Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005
Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 - Arfarniad Rheoliadol - Dim fersiwn Gymraeg ar Gael
Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau
Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 - Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**.....................................**

**Eitem 9**

**Y ddadl fer**
**NDM 2367 Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Cartrefu Tai yng Nghymru.**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 12 Ebrill 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**